# Cofnodion cyfarfod rhif 86 Pwyllgor Cynghori Cymru a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams/rhai wyneb yn wyneb ar 13 Medi 2022

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Hywel Wiliam | Y Cadeirydd |
| Robert Andrews | Aelod |
| Aled Eirug | Aelod |
| Tom Crick | Aelod |
| Angharad Evans | Aelod |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| David Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom |
| Ruth McElroy | Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys |
| Sian Phipps | Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau |
| Eleanor Marks | Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru |
| Elinor Williams | Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Gwenno Thomas | Cynorthwyydd Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**
**Dim**

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 86 Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC). Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau. | |
| **2. Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar**<br><br>Nododd Aled Eirug ei fod wedi'i benodi'n Gadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ddiweddar<br><br>Nododd Angharad Evans ei bod yn dal i wneud rhywfaint o waith i BBC Studios.<br><br>Soniodd yr Athro Tom Crick ei fod ar Goleg Arbenigwyr yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. | |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2022 a materion a godwyd**<br><br>Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2022 eu **CYMERADWYO** heb eu diwygio fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Dyma rai materion a godwyd:-<br><br>• **Cylch Gorchwyl Adolygiad Canol Tymor Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y BBC** – casglu tystiolaeth, gyda thîm polisi | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cyflwyno i'r pwyllgor yn ddiweddarach yn y cyfarfod.<br>• Cyhoeddiad Cyfryngau'r Genedl Cymru 2022 – oherwydd y newid yn y dyddiad cyhoeddi, nodwyd na chafodd yr adroddiad gymaint o sylw ag yn y blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i fethu â rhannu canfyddiadau'r adroddiad yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Nodwyd bod cydweithwyr yng Nghymru yn cael eu cyfweld ar BBC Radio Cymru a bod Wales Online wedi rhoi rhywfaint o sylw i'r achos.<br>• Sgwâr Canolog y BBC – roedd yr aelodau yn parhau i fod â diddordeb mewn ymweld â Sgwâr Canolog BBC Cymru Wales.<br>• Diwrnod hyfforddi PCC – cytunwyd i fwrw ymlaen â diwrnod o hyfforddiant i aelodau PCC a chynnwys trafodaethau thematig penodol ar feysydd pwnc o ddiddordeb. | |
| **Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**<br>4. Arweiniodd y Cadeirydd drafodaeth ar ymateb PCC i ymgynghoriad Ofcom ar Drwydded Weithredu'r BBC sy'n dod i ben yn fuan. Nododd fod llawer o waith cysylltiedig â'r BBC yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a bod angen i PCC flaenoriaethu ar ei ymatebion. Rhoddodd y Cadeirydd hefyd ddiweddariad llafar o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf gan gynnwys y canlynol:<br>• **Clwstwrverse** - Cynhaliwyd y digwyddiad arddangos yn Neuadd y Ddinas i nodi diwedd prosiect Clwstwr a oedd yn ceisio datblygu diwylliant ymchwil a datblygu yn niwydiannau creadigol Cymru.<br>• **Cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol Ofcom, Melanie Dawes** yn Swyddfa Ofcom. Roedd hon yn drafodaeth eang ar faterion allweddol sy'n wynebu Cymru. Bydd Cadeiryddion Pwyllgorau Cynghori yn cwrdd â Melanie a Chadeirydd newydd Ofcom, Michael Grade, ym mis Tachwedd.<br>• **It's My Shout yn dathlu 20 mlynedd** - aeth i ddigwyddiadau a gynhaliwyd ym Mhencadlys y BBC yng Nghaerdydd ac yn Neuadd Dewi Sant, fel Cyfarwyddwr *Its My Shout* – y cynllun hyfforddi sy'n cynhyrchu dramâu a rhaglenni dogfen Cymraeg a Saesneg i'w darlledu ar BBC 2 Wales ac S4C yn yr hydref.<br>• **Ogi yn agor pencadlys newydd yng Nghaerdydd** – aeth i lansiad pencadlys newydd trawiadol Ogi yn ystod yr haf, sydd yn Hodge House, Heol Eglwys Fair Caerdydd.<br>• **Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru** – digwyddiad rhanddeiliaid Ofcom ar y Rhwydwaith Gwledig a Rennir a oedd yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth.<br>• **Eisteddfod Genedlaethol – Tregaron** – wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau, cyflwyniadau a darlithoedd.<br>• **Cyfarfod Cadeiryddion Pwyllgorau Cynghori:** | |
| **5. Yr wybodaeth ddiweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom - ar lafar**<br>Rhoddodd Aelod o ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod: -<br>• Un mater i adrodd bod adolygiad wedi'i gynnal o'r Bwrdd Cynnwys a bod pob aelod o'r Bwrdd Cynnwys wedi bod yn rhan o'r adolygiad hwn drwy sgyrsiau unigol gyda Chadeirydd y Bwrdd Cynnwys. Gofynnodd Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys am farn aelodau'r pwyllgor ar effeithiolrwydd y berthynas rhwng yr Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys a Phwyllgor Cynghori Cymru. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
| --- | --- |
| • Fe wnaeth aelod dynnu sylw at bwysigrwydd cael papur diweddaru ysgrifenedig wedi'i ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Dywedodd yr aelod fod hyn yn rhoi amser i'r aelodau dreulio a pharatoi ymlaen llaw, sy'n golygu bod modd cael trafodaeth well. Fe wnaeth annog y Cadeirydd i ystyried hyn ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. | |
| **6. Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**<br>Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddaru a rannwyd yn flaenorol ac a oedd yn ymdrin â phynciau'n cynnwys y canlynol:<br>• Comisiynydd y Gymraeg – cafodd y ddau ymchwiliad oedd ar y gweill i'r posibilrwydd bod Ofcom wedi torri Safonau'r Gymraeg ei amlinellu i aelodau'r Pwyllgor a'i drafod yn fanwl.<br>• Panel Arbenigol yr Awdurdod Darlledu – nodwyd bod y drafodaeth yn mynd rhagddi gyda chydweithwyr mewn gwahanol dimau ynghylch pwy fyddai orau i gynrychioli Ofcom yn y sesiynau tystiolaeth arfaethedig.<br>• BBC Radio Cymru 2 – Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad ar safbwynt Ofcom yn ymwneud â'r estyniad arfaethedig i oriau BBC Radio Cymru 2 ar deledu digidol. | |
| **7. Trafodaeth: Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC**<br>Ar ôl cyflwyniadau, diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am y pecyn sleidiau a'r papur diweddaru a rannwyd ymlaen llaw. Fe wnaeth y Cadeirydd wahodd y tîm i amlinellu'r gwaith sydd ar y gweill yn gryno.<br>Soniodd y tîm fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud mewn perthynas â'r BBC ar hyn o bryd, sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Yn ychwanegol, mae Ofcom wedi cyfleu nifer o negeseuon strategol mawr ar y BBC eleni hyd yma ac mae llawer o wahanol elfennau yn y broses o gael eu rhoi ar waith, ac nid yw rhai o'r newidiadau y mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud yn dwyn ffrwyth eto. O ganlyniad, mae'r Adroddiad Blynyddol eleni ar berfformiad y BBC yn chwarae rôl ychydig yn wahanol i adroddiadau blaenorol. Bydd Ofcom yn tynnu sylw at feysydd perfformiad cryf ac yn amlinellu meysydd lle gallai pethau fod yn well.<br>Gofynnodd un aelod sut mae Ofcom yn asesu effeithiolrwydd gwasanaethau'r BBC ar sail comisiynau ar wasanaethau llinol a'r berthynas ag iPlayer – mae'n ymddangos bod cyswllt anorfod rhwng y ddau. Fe wnaeth yr aelod dynnu sylw at y ffaith bod BBC Cymru Wales ar gael ar iPlayer – ond dylid bod yn haws dod o hyd iddo.<br>Cyfeiriodd yr aelodau at yr angen am fwy o ddata a metrigau'r gwledydd, yn benodol ar gyfer ei wasanaethau ar-lein, gan hefyd dynnu sylw at yr angen am ddyddiad mwy manwl. Nododd aelodau'r pwyllgor pa mor werthfawr fyddai cael mynediad at fwy o ddata'n ymwneud ag iPlayer.<br>Fe wnaeth Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau dynnu sylw at bwysigrwydd cynhwysiad a sicrhau nad yw'r bobl hynny nad oeddent yn ymgysylltu ar-lein yn cael eu gadael ar ôl, gan hefyd sicrhau bod pobl yn cael y gorau o wasanaethau'r BBC a phwysleisio pa mor bwysig yw hi i roi hyn wrth galon y strategaeth Cymunedau yn Gyntaf.<br>Fe wnaeth yr aelodau drafod y cylch adrodd, ac a oedd unrhyw werth ei wneud yn gylch tymor hwy yn hytrach na chylch blynyddol. Amlinellodd y tîm yr angen i wyro oddi wrth strwythur adrodd llym. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| Fe wnaeth un aelod godi'r estyniad arfaethedig gyda BBC Radio Cymru 2 ac i weld a oedd hyn yn cael ei ystyried yn wasanaeth newydd. Rhoddodd y tîm y wybodaeth ddiweddaraf ar safbwynt Ofcom ar y cynnig. | |
| **8. Trafodaeth: Newyddion Rhwydwaith a Materion Datganoledig**<br><br>Cynhaliodd Aelodau'r Pwyllgor a chydweithwyr Ofcom drafodaeth ar y sylw a roddir i faterion datganoledig ar newyddion rhwydwaith. Mae hyn yn dilyn darn o ymchwil ar y mater hwn a gomisiynwyd gan Ofcom yn gynharach eleni gan yr Athro Stephen Cushion ym Mhrifysgol Caerdydd a Dr Richard Thomas ym Mhrifysgol Abertawe.<br><br>Nododd y Pwyllgor fod Covid wedi gwella'r ffordd yr adroddwyd ar faterion datganoledig ar newyddion rhwydwaith, ond ychwanegodd fod angen dull gweithredu mwy strategol a chyson ar y darlledwyr, a bod angen iddynt ddeall cymhlethdod datganoli yn well a'i adrodd yn gywir. Cytunodd y Pwyllgor fod hyfforddi newyddiadurwyr yn allweddol i hyn.<br><br>Trafododd Aelodau'r Pwyllgor a chydweithwyr Ofcom y canllawiau roedd Ofcom wedi'u rhoi i'r darlledwyr yn ystod y pandemig Covid, natur y cwynion a wnaed i Ofcom a'r ffordd roedd yn asesu'r rhain o dan y Cod Darlledu. | |
| **9. Ymchwil: Profiadau defnyddwyr busnesau bach a chanolig yn y farchnad gyfathrebiadau**<br><br>Roedd cydweithwyr Ofcom yn awyddus i ddiweddaru eu hymchwil yn y maes hwn, gan adeiladu ar yr adroddiad blaenorol a gyhoeddwyd yn 2016 a nodi blaenoriaethau newydd.<br><br>Pwysleisiodd Aelodau'r Pwyllgor bwysigrwydd a maint y sector busnesau bach a chanolig yng Nghymru, gan ychwanegu bod nifer ohonynt yn gwsmeriaid domestig yn hytrach na chwsmeriaid busnes, ac ychwanegu eu bod yn fodlon ar y cyfan â'u pecynnau cyfathrebu. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod unrhyw ddata newydd ar gael i bob gwlad er mwyn cael darlun cywir o'r hyn a oedd yn digwydd ar draws pob rhan o Gymru, ac mewn ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol.<br><br>Cododd Aelodau'r Pwyllgor y mater bod llawer o fusnesau bach a chanolig yn defnyddio llinell dir fel rhan o'u hanghenion busnes a'u bod yn dibynnu'n fawr ar eu cysylltiadau, gan gynnwys ar gyfer cymryd taliadau cerdyn credyd, ond bod ymwybyddiaeth o'r broses o symud i VOIP yn isel. | |
| **10. Trafodaeth gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Adolygiad o Siarter Canol Tymor y BBC**<br><br>Yn dilyn cyflwyniadau, cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor fod Pwyllgorau Cynghori Ofcom yn gyrff hyd braich sy'n rhoi cyngor annibynnol i Ofcom.<br><br>Diolchodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r Pwyllgor am ei dystiolaeth ysgrifenedig yr oedd yn ei derbyn ac eglurodd mai pwrpas y sesiwn ffurfiol hon oedd egluro a chael tystiolaeth bellach gan y Pwyllgor ar nifer o themâu, gan gynnwys y canlynol:<br><br>Canllawiau Golygyddol ac Amhleidioldeb: Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y diffiniad o ddidueddrwydd dyladwy, a sut roedd materion sy'n ymwneud â Chymru yn aml yn cael eu hanwybyddu mewn bwletinau newyddion. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod y sefyllfa wedi gwella yn ystod Covid, ac roeddent yn nodi ymchwil gan yr Athro Stephen Cushion a Dr Richard Thomas, a gomisiynwyd gan Ofcom. Nododd Aelodau'r Pwyllgor yr angen am | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| fwy o dryloywder gan y BBC i'w gynulleidfaoedd ynghylch ei brosesau gwneud penderfyniadau.<br><br>Llywodraethu Masnachol: Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y mater o bryderon a godwyd gan y Sector Annibynnol yng Nghymru wrth gystadlu â chomisiynau ar gyfer BBC Studios. Roedd yr aelodau o'r farn y dylid cael mwy o dryloywder rhwng elfen gwasanaeth cyhoeddus y BBC a BBC Studios<br><br>Cwynion: Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn pwyso am well cyfathrebu rhwng y BBC a'i gynulleidfaoedd, gan gynnwys ynghylch penderfyniadau'r BBC nad ydynt yn cael eu cynnal. Nododd Aelodau'r Pwyllgor rôl sylfaenol Ofcom ym mhroses BBC yn Gyntaf.<br><br>Amrywiaeth: Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am ddata manylach er mwyn cael darlun llawnach o'r sefyllfa yng Nghymru.<br><br>Trafododd Aelodau'r Pwyllgor hefyd yr angen am well cynrychiolaeth o Gymru a'i phobl ar y sgrin. | |
| **11. Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau**<br><br>Roedd Aelod Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddaru ar weithgareddau'r Panel ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y prif uchafbwyntiau a grybwyllwyd yn ystod y cyfarfod yn cynnwys y canlynol:<br><br>Roedd adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Gysylltedd Digidol yr oedd yr Aelod o'r Panel, Aelodau'r Pwyllgor a chydweithwyr Ofcom wedi rhoi tystiolaeth iddo yn cynnwys rhai argymhellion defnyddiol, gan gynnwys yr angen am well ymwybyddiaeth o symud i VOIP a Thariffau Cymdeithasol. Bydd y Gweinidog yn ymateb maes o law.<br><br>Bydd cyfarfod nesaf y Panel yn cynnwys trafodaeth ar brofiadau pobl sy'n treialu VOIP yng Nghaersallog.<br><br>Bydd Hyb Cymru yn cyfarfod ar 12 Hydref 2022, gan ganolbwyntio ar fforddiadwyedd a dyled. Bydd cyflwyniad gan Sefydliad Bevan ar dlodi yng Nghymru ac mae Cymunedau Digidol Cymru yn paratoi canllaw sy'n amlinellu'r hyn y gall sefydliadau ei wneud i helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau.<br><br>Bydd cyfarfod arall rhwng Cadeiryddion y Pwyllgor Cynghori a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cael ei gynnal ar 19 Hydref 2022. | |
| **12. Y wybodaeth ddiweddaraf – Polisi Cyhoeddus - ar lafar**<br><br>Rhoddodd cydweithwyr Ofcom y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau Llywodraeth y DU o dan y Cyfnod Galaru Cenedlaethol, yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines. Cadarnhawyd y byddai Ofcom yn oedi'r holl gyhoeddiadau a'n cyfathrebiadau allanol yn ystod y Cyfnod Galaru.<br><br>Ar ôl i Liz Truss ddod yn arweinydd y Blaid Geidwadol a'r Prif Weinidog newydd, nodwyd bod Michelle Donelan, Aelod Seneddol, wedi cael ei phenodi'n Ysgrifennydd Gwladol newydd dros yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Arhosodd Julia Lopez, Aelod Seneddol, a Damian Collins yn eu swyddi, ond nid oedd eu portffolios wedi cael eu cyhoeddi eto. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| Yn ei sesiwn gyntaf o Gwestiynau i'r Prif Weinidog, cadarnhaodd y Prif Weinidog newydd y byddai'r Bil Diogelwch Ar-lein yn mynd drwy'r Senedd Brydeinig ond gan awgrymu y byddai rhai newidiadau'n cael eu gwneud i'r drafft presennol. | |
| **13. Y wybodaeth ddiweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom - ar lafar**<br><br>Dywedodd Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom fod cyfarfod diwethaf y Bwrdd wedi bod ym mis Gorffennaf.<br><br>Cafwyd trafodaeth ynghylch pwysigrwydd Twf Economaidd a sut y dylai rheoleiddio annog menter a galluogi'r marchnadoedd i ffynnu.<br><br>Dywedodd yr Aelod fod y rheoliadau newydd o dan y Ddeddf Diogelwch Telegyfathrebiadau wedi cael eu hoedi.<br><br>Nododd yr Aelod ei fod wedi cael gwahoddiad i sesiwn casglu tystiolaeth gyda Phanel Arbenigol Llywodraeth Cymru ar awdurdod darlledu a chyfathrebu cysgodol i Gymru.<br><br>Fe wnaeth yr Aelod dynnu sylw Aelodau'r Pwyllgor at adroddiad diweddaraf Cysylltu'r Gwledydd a nodi bod y gostyngiad yn lefelau gwylio teledu yn fwy serth yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU. Dywedodd yr Aelod ei fod wedi codi'r mater hwn gyda BBC Cymru Wales yn ystod cyfarfod gyda'i Gyfarwyddwr. | |
| **14. Ymateb i Ymgynghoriadau:**<br><br>*Mae'r canlynol yn gyhoeddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor: -*<br>Ymgynghoriad: Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC<br><br>Cais am dystiolaeth: Cam cyntaf rheoleiddio diogelwch ar-lein:<br><br>**Ymgynghoriad: Adolygiad o adroddiadau rheoleiddio'r gwasanaethau post** | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf am gwynion defnyddwyr**<br><br>**15. Nodwyd y cynnwys** | |
| **Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod**<br><br>16. Nodwyd y cynnwys | |
| **Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol**<br><br>**Unrhyw fater arall -**<br><br>**Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:**<br><br>29 Tachwedd 2022 | |

______________________________ **Dyddiad**: ______________________

Cadeirydd

[remove for published minutes]